# YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans, John I. Jones,<br>R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Robin Williams |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Rheoli Datblygu (RLlJ)<br>Arweinydd Tîm a Swyddog Achos Cais 1 (GJ)<br>Uwch Swyddog Cynllunio a Swyddog Achos Cais 2 (SOH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Glyn Haynes, Jackie Lewis, Trefor Lloyd Hughes, MBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Non Dafydd a Paul Ellis (ar gyfer Cais 1) |

---

1. **FPL/2022/186 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i faes carafán teithiol, newid defnydd yr adeilad allanol presennol i ddefnydd ategol i'r maes carafán ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch.**

   Cyflwynodd y Swyddog Achos y cais cynllunio i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Teithiodd yr Aelodau i lawr y ffordd o Llanbedrgoch i'r safle ac yn ôl. Stopiodd yr Aelodau ym mhob un o'r 4 man pasio lle rhoddodd y Swyddog Achos gefndir cryno pob man pasio.

2. **FPL/2023/155 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i uned gwyliau ynghyd a gwaith cysylltiedig yn Llwyn Onn, Llanfairpwll**

   Cyflwynodd y Swyddog Achos y cais cynllunio i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Dangoswyd y man parcio ar gyfer y datblygiad arfaethedig i'r aelodau ynghyd â'r llwybr cerdded a'r adeilad sydd i gael ei drosi. Rhoddwyd disgrifiad ar lafar o'r cynllun.

**Cynghorydd Ken Taylor**
**(Cadeirydd)**